152 *Ein Nerth, Ein Gobaith, Ein Hyder*

(Diarhebion 14:26)

1. Dduw Jehofa, rwyt ti wedi rhoi
o'n blaenau obaith gwych.
Rydym am i bawb gael cyfle
i weld dy newydd fyd.
Ond amharu ar y gobaith hwn
mae pryderon trwm y dydd;
Yn mudlosgi yn ein calon
mae marwor tân ein ffydd.

(*CYTGAN*)
Ti yw'n nerth, ti yw'n gobaith,
ein hyder wyt.
Dy gysgod sy'n guddfan i ni.
Wrth bregethu'n hyderus,
ein cryfder wyt.
Dibynnwn yn llwyr arnat ti.

2. Dduw Jehofa, gwna i'n llygaid weld
ein gobaith eto'n glir.
Gwna'n calonnau'n fwy hyderus
i hysbysebu'r gwir.
Dduw Jehofa, gobaith cadarn wyt;
wrth ein hochr rwyt bob cam.
Ti yw'n hyder yn ein hadfyd;
adfywio rwyt ein fflam.
(*Cytgan*)

(Gweler hefyd Salm 72:13, 14; Diar. 3:5, 6, 26; Jer. 17:7.)

© 2016 Watch Tower Bible and Tract Society of Pennsylvania